# CYNGOR TREF LLANGEFNI

**COFNODION** Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 19eg o FAI 2025** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

**YN BRESENNOL :**
**Cyng. J. Egryn Lewis - Cadeirydd**

Cyng. John Lee
Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Margaret Thomas
Cyng. Gwenan Ll. Evans
Cyng. Non W. Parry
Cyng. Henry Jones
Cyng. Terry Jones

**HEFYD YN BRESENNOL :**
**Cynghorydd Sir :** Geraint Bebb
Dylan W. Rees
**Clerc :** Mr. H. Rhys Parry

**Cyfarfod yn cael ei Recordio**

*Cadeirydd, Cyng. J. Egryn Lewis yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod Llawn*

**25/034 Ymddiheuriadau :** Cyng. Alwyn Parry
Cyng. Eleri Ll. Burns
Ms. Linda Powell - Swyddog Gweinyddol
Heddlu : PCSO Alison Williams
Mr. Kian Evans – Cynrychiolydd Hwb Ieuenctid

**25/035 Datganiad o Ddiddordeb : Dim**

**25/036 Heddlu Gogledd Cymru : Dim Cynrychiolydd**

**1 Cyfarfod ar y Cyd – Diweddariad : 29.04.2025 -** Dim Diweddariad;

**2 Hwb Ieuenctid : Cyflwyniad Mr. Kian Evans -** Ymddiheuro nad oedd yn medru mynychu.

**25/037 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 14.04.2025**
Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. John Lee yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

**25/038 I Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 14.04.2025 :**

**1** Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod dim cyfathrebu trwy'r Swyddfa.

**25/039 Cynllunio :**

**1 I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 14.04.2025 :** Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

**25/040 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebon Gan y Maer :**
Cyng. Terry Jones, Y Maer ymadawol yn adrodd ar y canlynol:

**1 Dathlu Diwrnod Coffa VE 80 Mlynedd :**
**04.05.2025 – 'Street Party', Gwesty'r Bull, Llangefni –** Dim wedi mynychu;
**08.05.2025 - Dathlu Diwrnod VE ar y Cyd a Swyddogion RAF Y Fali a Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn :** Cyn Maer, Cyng. Terry Jones a'r Cyn Dirprwy Faer, Cyng. Richard Parry, wedi mynychu ac wedi mwynhau'r Achlysur;
**08.05.2025 - Goleuo Beacon Coffa Diwrnod Dathlu VE 80 Mlynedd :** Cyng. Terry Jones wedi goleuo'r Beacon oedd wedi'i leoli ar Gae Safle'r Orsedd.

**2 Cyngerdd y Maer : Elusen Dementia :** Cyng. Terry Jones yn adrodd fod £2,700 wedi'i gasglu trwy gynnal y Cyngerdd. Derbyniwyd Ysbyty Cefni, Plas Mona, Llanfairpwll a Plas Crigyll, Bryngwran, £900.00 yr un i brynu rhywbeth o'i dymuniad. Cadeirydd yn diolch yn fawr i Cyng. Terry Jones am ei holl waith i drefnu'r Cyngerdd.

**25/041 Materion yn Codi Gan Aelodau : Dim**

**25/042 Adroddiad y Clerc :**
**Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:**

**1 Môn Actif : Prosiect Lon Las :** Clerc yn arwain yr Aelodau trwy gefndir cais Môn Actif i farcio'r cwrt tennis a hefyd y posibilrwydd i Glwb Pickleball Ynys Môn gael defnydd o'r Pafiliwn i storio offer. Derbyniwyd cais hefyd ynghylch defnyddio'r Lawnt Fowlio/safle Lon Las, i gynnal gweithgareddau /Gwersylloedd Haf. Yn dilyn trafodaeth, Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. John Lee yn Eilio, i roi awdurdod i Môn Actif fynd ymlaen gyda'r Prosiect uchod. **PENDERFYNWYD** rhoi caniatâd i Môn Actif symud ymlaen gyda'r Prosiect ar safle Lon Las gan gynnwys defnyddio'r Pafiliwn fel storfa.

**2 Fynwent, Lon Newydd :** Clerc yn esbonio'r sefyllfa ddiweddaraf fod dim ond tri man claddu ar ôl yn y Fynwent ac yn rhannu cynllun arfaethedig ar gyfer mannau ychwanegol. Yn dilyn trafodaeth, awgrymwyd dylid cynnal Cyfarfod nesaf o Bwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae yn gynharach na'r amserlen i drafod y mater brys yma. **Derbyn**

**3 Seddi Gwag - Ward Cefni a Cyngar :** Clerc yn adrodd fod y Rhybudd Cyfethol wedi'i hysbysebu ar gyfer y Seddi Gwag. Dim trafodaeth bellach.

**4 Camerâu CCTV :** Clerc yn adrodd bod 68 o Gamerâu CCTV o gwmpas y dref yn dilyn gwaith diweddar Gwmni CCTV Services o osod camerâu ychwanegol.

**25/043 Adroddiad Pwyllgorau Allanol :**

**1 Fforwm Cyswllt Cynghorau Thref a Chymuned Ynys Môn 19.05.2025 :** Cynrychiolydd y Cyngor Tref ddim wedi mynychu oherwydd bod y dyddiad yn gwrthdaro a Chyfarfod Llawn y Cyngor yma.

**2 Un Llais Cymru : Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn 24.04.2025 -** Cofnodion 26.10.2024 & 14.03.2025 yn Atodol - er gwybodaeth.

**25/044 Cyllid :**

**1 I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Ebrill 2025 :**
Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Gwenan Ll. Evans yn Eilio i dderbyn y Fantolen Ariannol. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mis Ebrill 2025.

**25/045 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :**
Cynghorydd Sir yn adrodd ar y canlynol :

- Cyfoeth Naturiol Cymru wedi creu Cynllun Llifogydd am Llangefni – Gwybodaeth ar y Wefan;
- Llywodraeth Cymru wedi gofyn am adborth Parthau 20mya;
- Cyngor Sir Ynys Mon yn Galw am Safleoedd.
- Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir : Dydd Mawrth 20fed o Fai 2025.

Cyng. Non Parry, fel Warden Llifogydd, yn datgan siom gan nad oedd y Grŵp Llifogydd wedi cael cyfle i roi mewnbwn

**25/046 Gohebiaeth a Materion Newydd : Dim**

**25/047 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :**
**Materion wedi'u hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Ebrill 2025 :**

**1 Un Llais Cymru : Derbyn**
**2 Materion Eraill : Derbyn**

**25/048 I Ystyried Unrhyw Fater Brys gan y Cadeirydd :**

**1** **Adroddiad Awdit Cymru :** Cadeirydd yn tynnu sylw'r Panel Ymchwilio at amserlen derbyn Adroddiad Un Llais Cymru ac yn datgan dylid fod yr Adroddiad wedi'i chwblhau yn barod i'w cyflwyno i'r Cyfarfod Llawn nesaf 09.06.2025.

**2** **Ymddiswyddo :** Cadeirydd yn cyfeirio at ymddiswyddiad y Cyn Cynghorydd Richard Parry ac yn cyfeirio at ei gyfraniad i'r Cyngor Tref. Clerc yn cadarnhau fod llythyr o ddiolch wedi ei anfon at Mr. Parry.

**25/049 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf : Nos Lun 9fed o Fehefin 2025**

***CYNG. J. EGRYN LEWIS***
***CADEIRYDD***